


Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019–2022



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diwygiwyd mewn ymateb i COVID-19



Ionawr 2021

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 a COVID-19

Y Cefndir

Mae Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 (y 'Cynllun'), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, yn nodi blaenoriaethau polisi a blaenoriaethau gweithredol allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cafodd y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun eu llywio gan ymgynghori ac ymgysylltu helaeth dros nifer o fisoedd yn ystod 2019. Ers i bandemig COVID-19 ddechrau, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i adolygu'r Cynllun i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi'i wneud, ac a fydd yn cael ei wneud, o ganlyniad i'r pandemig.

Mae effaith COVID-19 wedi bod yn her o safbwynt polisi ac o safbwynt gweithredol. Mae Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr a Gwasanaethau wedi gweithio'n agos yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod unigolion sydd angen y cymorth yn ei gael. Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid (yn enwedig ein Byrddau Cynllunio Ardal a gwasanaethau trydydd sector sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau) i sicrhau bod anghenion y boblogaeth camddefnyddio sylweddau fwyaf agored i niwed yn cael eu diwallu a bod y canllawiau priodol ar waith. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn rhagweithiol ac yn adweithiol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae pwysigrwydd y blaenoriaethau allweddol gwreiddiol yn y Cynllun wedi cael ei atgyfnerthu gan fod gwasanaethau wedi gorfod addasu'n gyflym. Yn hollbwysig, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddiogelu gwasanaethau hanfodol gan gynnwys Therapi Amnewid Opioidau (OST) a chymorth i deuluoedd. Barnwyd bod y gwasanaethau hyn yn hanfodol drwy Fframwaith Gweithredu'r GIG ar ddechrau'r pandemig er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod ar gael. Enghraifft o'r gwaith a wnaed yw'r gefnogaeth a roddir i gyflwyno byprenorffene i'w chwistrellu, yn gyflym er mwyn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau rhagnodi. Roedd y gwasanaeth newydd yn disodli, lle y bo'n briodol ar gyfer pob unigolyn, wasanaethau meddyginiaeth drwy'r geg dyddiol i gefnogi defnyddwyr sy'n gwella, gan helpu i lleddfu'r pwysau ar wasanaethau fferylliaeth a gwasanaethau'r GIG yn ystod y pandemig a hwyluso gofynion cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, penderfyniad clinigol yw pryd y dylid defnyddio byprenorffene i'w chwistrellu.

Yn ogystal, mae llawer o waith partneriaeth wedi'i wneud i gefnogi gwaith i gartrefu pob person digartref, a pharatoi ar gyfer rhyddhau carcharorion yn gynnar o bosibl. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd gyllid ychwanegol i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol i amddiffyn pobl ddigartref yn ystod pandemig COVID-19. Gan weithio gyda phartneriaid, rhoddwyd mesurau a ariannwyd ar waith i wneud yn siŵr y gallai awdurdodau lleol sicrhau llety ychwanegol i gefnogi pobl a oedd yn cysgu ar y stryd neu mewn llety anaddas i symud i lety diogel. Roedd hyn yn sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfleusterau sy'n eu galluogi i hunanynysu a dilyn canllawiau iechyd y cyhoedd ar

gadw pellter cymdeithasol. Rydym hefyd yn gwneud buddsoddiad sylweddol (£50m) yng ngham nesaf ein hymateb, gan ganolbwyntio ar atal ac ail-gartrefu cyflym. Cafodd canllawiau eu datblygu i helpu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a digartrefedd, a'r rheini sy'n gweithio gyda phoblogaethau agored i niwed, yn enwedig y rheini sydd ag anhwylderau yn ymwneud â defnyddio cyffuriau a/neu alcohol, a phroblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, ac anghenion chymhleth. Datblygwyd y canllawiau hyn yn unol â chanllawiau cyfredol *Public Health England* (gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru) a gwybodaeth hanfodol ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau, aelodau o staff, gan gynnwys gwirfoddolwyr, a theulu neu ofalwyr. Mae'r canllawiau'n ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion penodol iawn sy'n berthnasol i'r sector wrth ymateb i COVID-19 tra'n parhau i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae llawer o wasanaethau wedi addasu'n gyflym i ddarpariaeth ddigidol ond wedi cynnal gwasanaethau allgymorth a chefnogaeth i'r achosion mwyaf cymhleth. Mae llawer o wasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi addasu, ac maent bellach yn darparu ymgynghoriadau ar-lein (Skype) a gwasanaethau cymorth seicolegol gan sicrhau cymorth parhaus. Mae hyn wedi cynnwys, lle bo angen, darparu meddyginiaethau Therapi Amnewid Opioidau (OST) i'r rhai sy'n hunanynysu neu'n methu â chael gfael ar eu meddyginiaeth am resymau eraill. Rydym wedi gweithio gyda'n llinell gymorth genedlaethol DAN 24/7 (a llinell gymorth iechyd meddwl CALL) i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am COVID-19 a gwasanaethau ar gael yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys doler ar y wefan sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19. Yn ogystal, cafodd gwefan DAN 24/7 ei huwchraddio i gael ei optimeiddio'n ddigidol er mwyn hwyluso hygyrchedd a defnydd. Drwy gydol yr ymateb i COVID-19, mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal wedi bod yn ymwybodol iawn o'r effeithiau posibl ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r angen i sicrhau bod newidiadau i wasanaethau yn ystyried eu barn, lle bynnag y bo modd. Fel rhan o'r broses hon comisiynodd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, Astudiaeth Effaith COVID dan Arweiniad Cymheiriaid a fydd yn helpu i lywio gwasanaethau yn y dyfodol yn y cyfnod eithriadol hwn.

O ystyried rhywfaint o'r gwaith allweddol a wnaed yn ystod y pandemig, rydym wedi adolygu'r Cynllun i weld ble mae angen ei ddiweddarau yng ngoleuni COVID-19 - yn enwedig er mwyn gallu ymateb i'r heriau newydd sydd o'n blaenau. Ar ôl cynnal yr adolygiad hwn ac ystyried y dystiolaeth a amlygwyd gan Fyrddau Cynllunio Ardal a phartneriaid ehangach, awgrymir bod y meysydd blaenoriaeth gwreiddiol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn parhau'n berthnasol, a'u bod wedi cael eu hatgyfnerthu yn ystod y pandemig. Y meysydd blaenoriaeth hyn yw:

- Ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd sy'n gyffredin gyda chamddefnyddio sylweddau

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 a COVID-19

- Sicrhau gwaith partneriaeth cryf gyda gwasanaethau tai a digartrefedd i ddatblygu ymhellach y dull amlddisgyblaethol sydd ei angen i gefnogi'r rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref
- Sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (a CEM Eastwood Park, y carchar i fenywod) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai
- Darparu rhagor o gefnogaeth i deuluoedd a gofawyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Gwella mynediad at wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth a'r driniaeth pan fo'u hangen arnynt
- Cryfhau ein trefniadau gweithio aml-asiantaethol a chynllunio gofal i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu
- Mynd i'r afael â'r broblem o ddibyniaeth ar feddyginiaethau trwy bresgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter
- Sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio alcohol priodol ac ymatebol yn eu lle yn dilyn gweithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ar 2 Mawrth 2020.

Fodd bynnag, o ystyried effaith COVID-19, argymhellir bod angen cynnwys camau gweithredu newydd yn y Cynllun a rhai camau gweithredu lle mae angen rhoi mwy o bwyslais arnynt. Yn achos rhai camau gweithredu, mae hefyd angen gohirio amserlenni o ystyried yr angen i flaenoriaethu'r ymateb i'r pandemig.

Camau gweithredu newydd arfaethedig

- Sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu'n barhaus yn ystod pandemig COVID-19, gan gynnwys gwella mynediad at wasanaethau a lleihau amseroedd aros. Sicrhau bod ystod o ddarpariaeth OST ar gael yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn a'r arfer gorau fel y nodir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ac yn y Llyfr Oren (Parhaus).
- Gwerthuso effaith byprenorffene i'w chwistrellu (Buvidal) (Ionawr 2021).
- Adolygu gwefan DAN 24/7 a gweithio'n agos gyda Byrddau Cynllunio Ardal a Darparwyr Gwasanaethau ar hyn. Bydd y safle'n cael ei weld fel elfen allweddol o'r arlwy digidol i unigolion a bydd yn cysylltu'n agos â mathau eraill o gymorth digidol a gynigir gan ddarparwyr gwasanaethau (Rhagfyr 2020).
- Sefydlu Cynllun Adfer i Gymru gyfan i gefnogi gwasanaethau i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer ail frigiad COVID-19 posibl. Yn benodol, bydd hyn yn ystyried defnyddio modelau gwasanaeth digidol a newydd (Rhagfyr 2020).
- Asesu'r camau gweithredu yn y Cynllun i'w hasesu yn erbyn y grwpiau hynny sydd, fel sy'n dod yn gliriach, wedi'u heffeithio fwyaf gan COVID-19 (e.e. Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig/incwm isel/ di-waith/mewn dyled/plant a phobl ifanc (gan gynnwys y rhai yn y system gyfiawnder))(Parhaus).
- Monitro'n ofalus y tueddiadau mewn Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau drwy gydol pandemig COVID-19 a sicrhau y gall y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau (NIBDPP) gymryd y camau angenrheidiol. Caiff hyn ei lywio gan yr Is-grŵp Cydgysylltwyr Adolygu Achosion a ail-sefydlwyd yn ddiweddar ac sy'n adolygu'r holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Bydd unrhyw gamau gweithredu penodol sy'n deillio o drafodaethau gyda'r NIBDPP yn cael eu cynnwys mewn diweddariadau i'r Cynllun yn y dyfodol (Parhaus).
- Darparu cymorth ychwanegol drwy'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith ar gyfer pobl ddi-waith tymor byr sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau o ganlyniad i COVID-19 (Parhaus).
- Sicrhau bod adborth defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ystyried drwy ystyried canfyddiadau'r astudiaeth o effaith COVID-19 a arweinir gan Gymheiriaid, a pharhau i gynnal ymchwil defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â thriniaeth a chymorth yn ystod COVID-19, a fydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion yn y dyfodol o ran diwallu anghenion (Parhaus).

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Canlyniad 1. Mae pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus er mwyn atal a lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		
<p>i) Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o safle DAN 24/7 fel bod anghenion pob unigolyn, teulu, gofalwr a sefydliad yn cael eu diwallu drwy wneud y defnydd gorau o dechnoleg wrth gael mynediad at wasanaethau. Bydd y safle'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod wedi'i optimeiddio'n llawn i ffonau symudol, bod y fideos sy'n cael eu cynnwys a'r swyddogaethau chwilio yn cael eu gwella, a bod systemau'n cael eu rhoi ar waith i helpu i leihau baich canolfannau galw a lleihau unrhyw alwadau ffôn posibl a gollir [Ebrill 2021]</p>	<p>Nifer y galwadau ffôn i DAN 24/7 Nifer yr ymweliadau â gwefan DAN 24/7.org FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru</p> <p>Rhagamcan o ba mor aml mae yna broblem defnyddio cyffuriau (diffiniad Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop) FFYNHONNELL: Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p>Llywodraeth Cymru, DAN 24/7, Byrddau Cynllunio Ardal</p>
<p>ii) O ran ymwybyddiaeth o wasanaethau camddefnyddio sylweddau, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio</p>	<p>% a nodwyd sy'n yfed mwy na chanllawiau yfed risg isel Prif</p>	<p>Llywodraeth Cymru, DAN 24/7, Byrddau Cynllunio Ardal</p>

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Ardal a gwasanaeth DAN 24/7 i sicrhau bod gwasanaethau ledled Cymru yn cael eu mapio, fel bod unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn ymwybodol o ble i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ac o ble i gael help a chefnogaeth [Ebrill 2021]</p>	<p>Swyddogion Meddygol y DU 2016 bob wythnos (yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol).</p> <p>% a nodwyd sy'n yfed ar lefelau cymedrol, peryglus a niweidiol</p> <p>% a nodwyd sy'n yfed mwy na chanllawiau yfed risg isel Prif Swyddogion Meddygol y DU 2016, sy'n nodi, i ddyinion a menywod, 'Ei bod hi'n fwy diogel peidio ag yfed mwy na 14 uned yr wythnos yn rheolaidd, er mwyn cadw'r risgiau iechyd o yfed alcohol yn isel'</p>	
<p>iii) Adolygu gwefan DAN 24/7 a gweithio'n agos gyda Byrddau Cynllunio Ardal a Darparwyr Gwasanaethau ar hyn. Bydd y safle'n cael ei weld fel elfen allweddol o'r arlwy digidol i unigolion a bydd yn cysylltu'n agos â mathau eraill o gymorth digidol a gynigir gan ddarparwyr gwasanaethau [Rhagfyr 2020]</p>		<p>DAN 24/7, Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal</p>
<p>iv) Parhau i godi ymwybyddiaeth o agweddau amrywiol camddefnyddio sylweddau ar draws y boblogaeth, yn enwedig pan fydd problemau penodol yn codi, gan gynnwys ymwybyddiaeth o nodau iechyd cyhoeddus o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol [Parhaus]</p>	<p>% a nodwyd sy'n yfed ar lefelau cymedrol, peryglus a niweidiol</p> <p>FFYNHONNELL: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>v) Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda lechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal y rhaglen sy'n ymdrin â chyffuriau sy'n gwella perfformiad a delwedd [IPEDs]. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ar leihau niwed er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio neu mewn perygl o ddefnyddio IPEDs yn gwbl ymwybodol o'r risgiau a'r niweidiau. Fel rhan o'r gwaith, byddwn yn cydweithio'n agos ag lechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y gymuned a'r sector chwaraeon elîit yn gwbl ymwybodol o'r wybodaeth hon hefyd [Parhaus]</p>		Llywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru
<p>vi) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ystyried argymhellion yr adolygiad o'r Rhaglen Heddlu ac Ysgolion Cymru (WPSP) gan sicrhau ei bod yn ategu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar ddiwygio'r cwricwlwm drwy Fwrdd Strategol WPSP, gyda Bwrdd Gweithredol yn eistedd oddi tano [Parhaus]</p>		Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, yr heddlu

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
vii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ystyried argymhellion yr adolygiad o Raglen Heddlu ac Ysgolion Cymru a sut y gall ategu ac ychwanegu gwerth i'r gwaith sydd ar droed, drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd ar Ddull Ysgol Gyfan, i wella llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, yr heddlu
viii) Cynnal adolygiad tystiolaeth i bennu'r cysylltiadau rhwng camddefnyddio sylweddau, yfed alcohol a gamblo [Rhagfyr 2021]		Llywodraeth Cymru
ix) Bydd Llywodraeth Cymru, drwy weithio â phartneriaid, yn mynd ati gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o'r niweidiau sy'n gysylltiedig ag yfed lefelau peryglus o alcohol, yn ogystal â darparu cyngor clir ar reoli faint o alcohol a yfir [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill
x) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu hyfforddiant, gwybodaeth a deunydd i godi ymwybyddiaeth o'r dull o ymdrin â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru sy'n		Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, yr heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>seiliedig ar drawma. Bydd yr amcan yn ceisio atal problemau sy'n pontio'r cenedlaethau a datblygu gwydnwch i wella cyfleoedd bywyd, gan ganolbwyntio ar atal a lleihau effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a fydd hefyd yn ystyried, er enghraifft, sut y mae hyn y cyd-fynd ag amcanion glasbrint Cyfiawnder Ieuencid a Throseddwy'r Benywaidd yng Nghymru [Ebrill 2021]</p>		
<p>Canlyniad 2. Mae materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn cael eu canfod yn gynnar ac eir i'r afael â hwy yn gynnar.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwellu iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwellu profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		
<p>i) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda meddygon teulu a chyrrff cynrychiadol i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch</p>	<p>Nifer yr asesiadau newydd i wasanaethau camddefnyddio</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol</p>

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) i annog meddygon teulu (a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill) i ymgymryd â Rhan 1 a Rhan 2 o dystysgrifau camddefnyddio sylweddau Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ac i arbenigo mewn camddefnyddio sylweddau [Parhaus]</p>	<p>sylweddau yn ôl y tri sylwedd a adroddir amlaf FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM)</p> <p>Nifer yr unigolion newydd mewn cyswllt â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM)</p>	
<p>ii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod gan bob lleoliad gofal sylfaenol llwybrau atgyfeirio uniongyrchol i wasanaethau asesu camddefnyddio sylweddau a gwella trefniadau ar gyfer darparu gofal a rennir [Ebrill 2021]</p>	<p>Nifer y meddygon teulu â diddordeb arbennig mewn camddefnyddio sylweddau sydd wedi'u cofrestru a'u hyfforddi hyd at Lefel 2 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol</p>	Llywodraeth Cymru
<p>iii) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Gofal Sylfaenol i ddatblygu llwybrau gofal gyda darparwyr camddefnyddio sylweddau i sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol pa wasanaethau sydd ar gael [Parhaus]</p>		Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 1 – Atal Niwed		
Camau Gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>iv) Dylai pob Bwrdd Cynllunio Ardal ystyried sut mae gwaith allgymorth rhagweithiol yn cael ei wneud yn ei ardal er mwyn targedu grwpiau anodd eu cyrraedd na allai fod yn defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn enwedig y boblogaeth ddigartref [Parhaus]</p>	<p>FFYNHONNELL: Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru</p> <p>Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddi ac sy'n defnyddio 'ymyriadau cyflym'</p>	<p>Byrddau Cynllunio Ardal</p>
<p>v) Llywodraeth Cymru i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyhoeddi'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol, ac yna rhoi'r canfyddiadau ar waith gyda'r nod o sicrhau diagnosis amserol ac atgyfeirio, drwy lwybrau gofal eglur, i asesiad, triniaeth a gwasanaethau adfer arbenigol gyda chymorth prif glinigydd dynodedig ar gyfer niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol o fewn pob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru [Ebrill 2021]</p>	<p>FFYNHONNELL: Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Canlyniad 3. Mae iechyd corfforol a meddwl a lles cyffredinol pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cael eu gwella ac mae anghydraddoldebau iechyd cysylltiedig yn cael eu lleihau i'r eithaf.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		
<p>i) Sicrhau bod y Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd yn cael ei gyflenwi, gyda'r nod o wella'r cydweithio â gwasanaethau iechyd meddwl a chael cymorth gwell i'r rhai hynny sydd â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad arferion gorau o'r llwybrau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer unigolyn â phroblem sy'n cyd-ddigwydd, a fydd yn cynnwys edrych ar y rhwystrau a'r arferion da ar waith ar y maes hwn drwy weithio gyda grŵp i fynd at wraidd y mater (Deep Dive).</p>	<p>Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau – sy'n cynnwys cyffuriau anghyfreithiol yn unig</p> <p>FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol</p> <p>Nifer y marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau – sy'n cynnwys cyffuriau cyfreithiol ac anghyfreithiol</p> <p>FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol</p>	<p>Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, Byrddau Cynllunio Ardal</p>

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Byddwn yn cynnwys ymarferwyr a chlinigwyr i helpu i yrru'r agenda hon ymlaen [Mawrth 2021]	<p>Nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd cyffuriau anghyfreithlon sylfaenol a enwyd FFYNHONNELL: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW))</p> <p>Nifer y bobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n defnyddio gwasanaethau.</p> <p>Nifer y pecynnau naloxone i fynd adref a roddwyd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unigolion newydd • Wedi'i ailgyflenwi yn dilyn defnydd <p>FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Lleihau Niwed</p> <p>Nifer y marwolaethau sy'n benodol i alcohol</p>	
ii) Sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir i gefnogi achosion sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu halinio a'u bod yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a digartrefedd [Chwefror 2021]		Llywodraeth Cymru
iii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb â nodweddion gwarchoddedig [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
iv) Bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am dystiolaeth o wasanaethau pontio priodol i bobl ifanc sy'n cyrraedd y trothwy cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i'r mater hwn yn y system cyfiawnder ieuencid [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau
v) Ceisio cydleoli gwasanaethau gyda thimau digartrefedd awdurdodau lleol pan fo'n briodol, er mwyn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar		Awdurdodau lleol

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
yr unigolyn i'r rhai hynny sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref [Parhaus]	FFYNHONNELL: Y SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL	
vi) Er mwyn mabwysiadu dull gweithredu ataliol, datblygu protocolau gyda landlordiaid tai cymdeithasol a'r sector preifat er mwyn helpu i adnabod tenantiaid a allai fod angen gwasanaethau camddefnyddio sylweddau [Mai 2021]	Nifer y derbyniadau i'r ysbyty sydd â chlefyd cynradd ac unrhyw sôn am alcohol FFYNHONNELL: NWIS (PEDW)	Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
vii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd a rhanddeiliaid eraill i gyflawni gwaith a fydd yn ceisio sicrhau bod gan bob carchar yng Nghymru (gan gynnwys Eastwood Park hefyd) wasanaeth cydlynol, tryloyw a chyson ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n seiliedig ar arfer gorau. Y nod yw llunio llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru – yn ogystal â sicrhau dilyniant gofal yn y gymuned. Dyma un o'r blaenoriaethau allweddol yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer	Nifer y derbyniadau i'r ysbyty sydd â chyflyrau y gellir eu priodoli i alcohol (diffiniad eang a chul) FFYNHONNELL: NWIS (PEDW) Amcangyfrif mynychder Hepatitis C, haint Hepatitis B a HIV ymhlith pobl sy'n chwistrellu cyffuriau mewn cysylltiad â gwasanaethau arbenigol FFYNHONNELL: Heb ei gysylltu	Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Byrddau Iechyd

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Iechyd mewn Carchardai¹. Byddwn yn datblygu Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer y carchardai yng Nghymru [Mawrth 2021]		
viii) Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd i gynnal dadansoddiad o anghenion lleol o ran camddefnyddio neu fod yn ddibynnol ar boenlinaryddion ar bresgripsiwn, er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu drwy glinigwyr a darpariaeth gwasanaeth ehangach os oes angen [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd
ix) Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal a phartneriaid eraill drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyniad o Gyffuriau oherwydd Cyffuriau i roi argymhellion adolygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith (ar ôl y Seminarau Consensus Cyffuriau) gyda'r nod o leihau achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau ac achosion nad ydynt yn angheuol [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Iechyd Cyhoeddus Cymru

¹ [Cytundeb partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn carchardai yng Nghymru](#)

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>x) Monitro'n ofalus y tueddiadau mewn Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau drwy gydol pandemig COVID-19 a sicrhau y gall y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau (NIBDPP) gymryd y camau angenrheidiol. Caiff hyn ei lywio gan yr Is-grŵp Cydgysylltwyr Adolygu Achosion a ail-sefydlwyd yn ddiweddar sy'n adolygu'r holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Bydd unrhyw gamau gweithredu penodol sy'n deillio o drafodaethau gyda'r NIBDPP yn cael eu cynnwys mewn diweddariadau i'r Cynllun yn y dyfodol</p> <p>[Parhaus]</p>		Llywodraeth Cymru, yr heddlu, Byrddau Cynllunio Ardal (Cydgysylltwyr Adolygu Achosion)
<p>xi) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu protocol rhannu gwybodaeth cenedlaethol yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI) [2021]</p>		Llywodraeth Cymru
<p>xii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pob gweithiwr camddefnyddio sylweddau yn cael ei hyfforddi i ddeall risgiau hunanladdiad ymhlith pobl sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn gallu cael ymyriadau priodol yn unol â'r camau</p>		Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal.

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
gweithredu yn Beth am Siarad â Fi? [Tachwedd 2021]		
xiii) Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dosbarthiad ‘Naloxone i fynd adref’ (THN) ac yn datblygu hwn o fewn y gymuned, yn arbennig lleoliadau y mae pobl ddigartref yn mynd iddynt, gan gynnwys llety dros dro, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu ac yn cyrraedd cymaint â phosibl o bobl. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fonitro ac adrodd ar ddarpariaeth naloxone i fynd adref ledled Cymru [Parhaus ac adroddiadau blynyddol]		Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal.
xiv) Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid i bennu'r angen am Nyxoid (Naloxone drwy'r trwyn). Pan nodir angen, gweithio gydag ardaloedd i weithredu Nyxoid gyda gofalwyr a gwasanaethau ar ymylon camddefnyddio sylweddau (fel swyddogion yr heddlu) [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal.
xv) Byrddau Cynllunio Ardal i barhau i ddatblygu, cefnogi a monitro'r ddarpariaeth o nodwyddau a chwistrelli er		Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>mwyn sicrhau bod digon ar gael a'u bod yn hawdd eu cael, gyda lefelau priodol o gyngor ar leihau niwed [Parhaus]</p>		
<p>xvi) Llywodraeth Cymru i fonitro effeithiolrwydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 a weithredwyd ym mis Mawrth 2020 sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirdymor a phenodol sy'n ymwneud ag effeithiau yfed gormod o alcohol yng Nghymru [Parhaus]</p>		Llywodraeth Cymru
<p>xvii) Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o lefel Isafbris Uned o Alcohol, ddwy flynedd ar ôl ei roi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, a fydd yn cynnwys canolbwyntio ar effeithiau isafbris uned ar fanwerthwyr, yn ogystal ag ar yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol. Bydd adroddiadau llinell sylfaen ar gyfer y gwerthusiad yn llywio'r adolygiad o lefel yr isafbris uned [Parhaus]</p>		Llywodraeth Cymru

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
xviii) Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Byrddau Cynllunio Ardal i nodi a rheoli unrhyw effaith bosibl isafbris uned ar wasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar draws amrediad o feysydd polisi i nodi cyfleoedd i liniaru canlyniadau anfwriadol posibl cyflwyno isafbris uned am alcohol sydd wedi'u hamlygu gan randdeiliaid [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
xix) Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal i ystyried ehangu gwasanaethau nyrsys cyswllt alcohol ac i ystyried y dystiolaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau allgymorth grymusol alcohol yng Nghymru [Ebrill 2021]		Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal.
xx) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i ail-sefydlu profion optio allan rheolaidd (profi smotyn gwaed sych a thynnu gwaed) ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed (hepatitis B, hepatitis C ac HIV) a brechiad hepatitis B i bawb sydd mewn cyswllt â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan		Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal.

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
gynnwys gwasanaethau trothwy isel a darparwyr fferyllol cymunedol a charchardai [Ionawr 2021]		
xxi) O 2019 ymlaen, byddwn yn cyflwyno mesur perfformiad allweddol ar gyfer profi am feirysau a gludir yn y gwaed, er mwyn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i darged diddymu Sefydliad Iechyd y Byd. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol o ymarferwyr a chlinigwyr [Rhagfyr 2019]		Llywodraeth Cymru
xxii) Byddwn yn gweithio gyda GambleAware er mwyn sicrhau cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth i gamblwyr â phroblem [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Gambleaware
<p>Canlyniad 4. Mae gan bobl sydd â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau y sgiliau, y gwydnwch a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i sicrhau a chynnal annibyniaeth economaidd ac mae effaith negyddol camddefnyddio sylweddau ar economi Cymru yn cael ei lleihau i'r eithaf</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
i) Byddwn yn ceisio diogelu mwy o gyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ehangu'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith tan fis Awst 2022 i gefnogi 5,000 mwy o bobl [Awst 2022]	Nifer y bobl sy'n cofrestru gyda'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
ii) Byddwn yn cyhoeddi canlyniadau gwerthusiad annibynnol o'r Gwasanaeth Di-waith er mwyn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y gefnogaeth yn y maes hwn [Gorffennaf 2020]	Nifer y bobl a enillodd gymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
iii) Darparu cymorth ychwanegol drwy'r Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn y tymor byr sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau o ganlyniad i COVID-19 [Parhaus]	Nifer y bobl a aeth i mewn i gyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
iv) Byddwn yn gweithio gyda gwasanaeth cynghori Cymru'n Gweithio i sicrhau cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chymorth gwaith [Parhaus]	Nifer y bobl a aeth ati i chwilio am waith ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru, Cymru'n Gweithio
v) Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod pobl sydd angen triniaeth cyn y gallant	FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru, Canolfan Byd Gwaith

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
ddechrau chwilio am waith yn cael eu hatgyfeirio'n briodol [Parhaus]	Nifer y bobl a gynyddodd eu cyflogadwyedd drwy gwblhau profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	
vi) Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli mewn amgylcheddau gwarchodol (er mwyn caniatáu i'r rhai hynny ar ddechrau eu taith camddefnyddio sylweddau gymryd rhan, a hwythau ond yn gallu mynd a dod o brosiectau ar y cyfnod cynnar hwn [Parhaus]	Nifer y bobl mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru Nifer y bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb salwch FFYNHONNELL: Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
<p>Canlyniad 5. Mae pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ddiwylliannol a chymdeithasol gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwellu profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>i) Pob Bwrdd Cynllunio Ardal i ystyried sut y gall cysylltiadau â phrosiectau cymunedol, gweithgareddau dargyfeiriol a gweithgareddau chwaraeon, a mynediad atynt, chwarae rhan yn iechyd a llesiant y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Fel rhan o hyn, y Byrddau i ystyried sut y gallant ymgysylltu â'r sector chwaraeon [Parhaus]</p>		Byrddau Cynllunio Ardal
<p>Canlyniad 6. Mae pawb yr effeithir arnynt gan faterion camddefnyddio sylweddau yn cael ei drin gydag urddas, tegwch a pharch.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwellu profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		
<p>i) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda grwpiau cymunedol a'r cyfryngau lleol i gefnogi pobl â phrofiad uniongyrchol o wella i godi ymwybyddiaeth o adferiad, er mwyn lleihau'r safbwyntiau negyddol am bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau [Parhaus]</p>		Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
ii) Byrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru i weithio gyda swyddfeydd cyswllt y Lluoedd Arfog a sefydliadau elusennol milwrol i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gyn-filwyr ac yn diwallu eu hanghenion, gan gynnwys y rhai hynny sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd [Mawrth 2021]	Nifer cyn aelodau'r lluoedd arfog sy'n cael mynediad at wasanaethau	Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
<p>Canlyniad 7. Mae pawb yr effeithir arnynt gan faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn gallu cael gafael ar wasanaethau o safon sy'n amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ddiogel ac yn effeithiol.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		
i) Fel rhan o'r gwaith o adolygu sut caiff gwasanaethau eu comisiynu, dylai Byrddau Cynllunio Ardal sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio'n fwy hyblyg, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol, ac yn ystyried darpariaeth ar benwythnos [Parhaus]	<p>Cynnydd canrannol yn nifer y bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau Ffynhonnell: NWIS</p> <p>Cyflawni amser aros o 20 diwrnod gwaith neu lai rhwng atgyfeirio a</p>	Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
ii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod eu gwasanaethau'n ymatebol i'r tueddiadau mewn data, yn enwedig o ran achosion o wenwyno sy'n angheuol ac fel arall, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau priodol ar waith [Parhaus]	thriniaeth. (Dangosydd Perfformiad Allweddol) FFYNHONNELL: Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM)	Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
iii) Sefydlu Cynllun Adfer i Gymru gyfan i gefnogi gwasanaethau i sicrhau parodrwydd ar gyfer ail frigiad COVID-19 ac unrhyw frigiad dilynol. Yn benodol, bydd hyn yn ystyried y defnydd o fodelau gwasanaeth digidol a newydd [Rhagfyr 2020]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
iv) Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd â'i gilydd a sicrhau mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd lle mae prosiectau arloesi Tai yn Gyntaf ar waith. Dylai hyn fod ar ffurf timau amlddisgyblaeth fel y gall cymorth camddefnyddio sylweddau i bobl sy'n cysgu allan gefnogi nodau ac egwyddorion Tai yn Gyntaf a helpu unigolion i ymdrin â'u dibyniaethau mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
unigolyn ac wedi'i liwio ar sail trawma [Rhagfyr 2019]		
v) Sicrhau bod amrywiaeth o ddarpariaethau therapi amnewid opioidau (OST) ar gael sy'n seiliedig ar anghenion yr unigolyn ac arferion gorau, fel y'u nodwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ac yn y Llyfr Oren [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
vi) Sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu darparu yn ystod pandemig COVID-19, gan gynnwys gwella mynediad at wasanaethau a lleihau amseroedd aros [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
vii) Byddwn yn gweithio i ddatblygu cynlluniau peilot ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu therapi amnewid opioidau yn yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf, yn seiliedig ar arfer gorau, yn enwedig i ddiwallu anghenion yr unigolion mwyaf cymhleth gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref neu mewn llety dros dro [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
viii) Gwerthuso effaith byprenorffene i'w chwistrellu (Buvidal) [Ionawr 2021]		Llywodraeth Cymru
ix) Byddwn yn adolygu ein targed ar gyfer amseroedd aros er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ac yn arwain at ganlyniadau gwell, ac yn monitro'r cynnydd yn erbyn hwn [Ebrill 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
x) Sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn o ran lleihau niwed yn ymwneud â defnyddio cyffuriau ac alcohol (gan gynnwys meddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig) [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal
xi) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod anghenion iechyd y boblogaeth sy'n camddefnyddio sylweddau (yn enwedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio) yn cael eu hasesu a bod unigolion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau priodol os oes angen [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal
xii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag "Yfed Doeth Heneiddio'n Dda" ar eu Siarter Galw am Newid a nododd nifer o feysydd y gellir eu gwella o ran		Llywodraeth Cymru, Yfed Doeth Heneiddio'n Dda

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl hŷn yng Nghymru [Parhaus]		
xiii) Byddwn yn monitro Rehab Cymru, y Fframwaith Triniaeth Breswyl newydd, ac yn sicrhau bod amrywiaeth o driniaethau preswyl yn parhau i fod ar gael a bod mynediad a chanlyniadau'n cael eu gwella [Parhaus]		Llywodraeth Cymru
xiv) Datblygu llwybrau atgyfeirio rhwng timau allgymorth cysgu allan a thimau digartrefedd awdurdodau lleol i unedau adsefydlu preswyl. Dylai hyn gynnwys llwybrau atgyfeirio o brosiectau Tai yn Gyntaf [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol
xv) Gweithio ar ddatblygu prosesau 'symud ymlaen' i'r rhai hynny sy'n barod i adael unedau adsefydlu preswyl neu garchardai, gydag awdurdodau lleol, landlordiaid tai cymdeithasol a gwasanaethau cymorth tai yn benodol [Mawrth 2021] Bydd partneriaid yn ceisio ystyried ansawdd y ddarpariaeth ddiogel sy'n seiliedig ar drawma o fewn		Llywodraeth Cymru

Nod Allweddol 2: Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Cyfiawnder leuenctid. Bydd trefniadau pontio yn cael eu hystyried i sicrhau bod 'ailsefydlu adeiladol' yn digwydd a bod mynediad at wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn briodol</p>		
<p>xvi) Adolygu'r camau gweithredu yn y Cynllun i'w hasesu yn erbyn y grwpiau hynny y mae wedi dod i'r amlwg bod COVID-19 wedi effeithio fwyaf arnynt (e.e. Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig/incwm isel/di-waith/mewn dyled/plant a phobl ifanc (gan gynnwys y rhai yn y system gyfiawnder))([Parhaus]</p>		<p>Llywodraeth Cymru</p>

Nod Allweddol 3: Cefnogi a diogelu teuluoedd		
Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Canlyniad 8. Mae allgáu ac arwahanrwydd cymdeithasol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau i'r eithaf.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiad ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a theuluoedd</i> 		
i) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bawb a bod gwasanaethau allgymorth ar gael i'r bobl hynny sydd wedi eu hynysu oherwydd eu problemau camddefnyddio sylweddau, yn enwedig pobl hŷn [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal
<p>Canlyniad 9. Mae niweidiau camddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau i blant a theuluoedd.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> 		
i) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda ni a grwpiau eraill yn y gymuned sy'n darparu gwasanaethau		Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 3: Cefnogi a diogelu teuluoedd		
Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>ymyrraeth gynnal ac atal, e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf. Y nod yw bod atgyfeiriadau amserol a phriodol yn cael eu gwneud i wasanaethau camddefnyddio sylweddau a bod ymwybyddiaeth o'r niweidiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac o le i gael ffynonellau cymorth yn cael ei darparu [Parhaus]</p>		
<p>ii) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael i blant a theuluoedd i roi cymorth iddynt [Rhagfyr 2020]</p>		Byrddau Cynllunio Ardal
<p>iii) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu datblygu gydag ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod staff yn cael eu hyfforddi yn hyn o beth [Ebrill 2021]</p>		Byrddau Cynllunio Ardal
<p>iv) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau pontio ar gael i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys problemau sy'n cyd-ddigwydd, a'u teuluoedd [Medi 2021]</p>		Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 3: Cefnogi a diogelu teuluoedd		
Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Canlyniad 10. Mae canlyniadau i blant a theuluoedd ar ffiniau gofal neu mewn gofal yn gwella.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <p>➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i></p>		
i) Sicrhau bod systemau ar y cyd ar waith ar gyfer adnabyddiaeth gynnar a champau gweithredu ataliol i helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i ofal o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau [Mawrth 2021]		Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
ii) Darparu gwasanaethau hygrych ac amserol i rieni â phroblemau camddefnyddio sylweddau fel eu bod yn cael eu helpu i gadw eu huned deuluol gyda'i gilydd drwy reoli'r risg [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal
iii) Mynd ati ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau o fewn cyrraedd hawdd i gynorthwyo'r plant a phobl ifanc hynny mewn gofal neu ar ffiniau gofal y mae eu bywydau wedi'u heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal, awdurdodau lleol

Nod Allweddol 3: Cefnogi a diogelu teuluoedd		
Camau gweithredu	Sut byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
iv) Byrddau Cynllunio Ardal a Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol i sicrhau mynediad hawdd i bobl ifanc ag anawsterau camddefnyddio sylweddau a phrofiad o fod mewn gofal at wasanaethau pontio dynodedig. Dylai lefelau'r gofal a chymorth a gynigir ar yr adeg hon o'u bywydau fod o leiaf yn gyfartal â'r rhai hynny a ddarperir gan wasanaethau plant a phobl ifanc [Mawrth 2022]		Byrddau Cynllunio Ardal, awdurdodau lleol
v) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Grŵp Cyngori Gwella Canlyniadau i Blant i sicrhau bod gwaith ar y cynllun hwn yn cyd-fynd â'r nod o leihau nifer y plant sydd angen gofal yn ddiogel drwy sicrhau bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd drwy reoli'r risg sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a chefnogi teuluoedd agored i niwed lle ystyrir bod y plant 'ar ffiniau gofal' [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 4: Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Canlyniad 11. Mae pobl yn fwy diogel / yn teimlo'n fwy diogel mewn cysylltiad â throsteddu.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <p>➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i></p>		
i) Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsteddu a'r heddlu i osod nodau allweddol o ran lleihau'r argaeledd o gyffuriau anghyfreithlon a sylweddau seicoweithredol newydd a chyhoeddi canlyniadau llwyddiannus, yn enwedig o ran gwaith ar linellau cyffuriau [Rhagfyr 2020]	Nifer y trosteddau cyffuriau a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal, Comisiynwyr Heddlu a Throsteddu
ii) Llywodraeth Cymru a'r Uned Atal Trais yng Nghymru i gydweithio i sicrhau bod yr amcanion a bennir mewn gweithgarwch diogelu a thrin camddefnyddio sylweddau, yn ategu tarfu gan yr heddlu ac yn anelu at wneud model gweithredu llinellau cyffuriau yn amhosibl	Nifer y trosteddau sy'n ymwneud ag alcohol a gofnodwyd gan heddluoedd Cymru FFYNHONNELL: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Llywodraeth Cymru, yr Uned Atal Trais
iii) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsteddu a'r Heddlu i		Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsteddu, yr heddlu

Nod Allweddol 4: Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
gynyddu argaeledd rhaglenni dargyfeiriol a lleihau nifer y bobl sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol		
iv) Cynorthwyo landlordiaid yng Nghymru i nodi a chefnogi gweithgarwch i fynd i'r afael â'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch sy'n ymwneud â gangiau / llinellau cyffuriau. Yn benodol, gweithio gyda phedwar llu heddlu Cymru i sicrhau bod gwasanaethau yn gwbl ymwybodol o dueddiadau o ran gweithgareddau ac arferion gorau o ran atal ac ymyrryd [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol, Cartrefi Cymunedol Cymru
v) Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r diwydiant alcohol a phartneriaid eraill i sicrhau bod negeseuon yfed yn ddiogel yn cael eu hyrwyddo mewn safleoedd trwyddedig a manau gwerthu alcohol [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Diwydiant Alcohol
vi) Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Phartneriaethau Alcohol Cymunedol i ddatblygu mentrau lleol i fynd i'r afael ag yfed dan oedran ac ymddygiad gwrthgymdeithasol [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 4: Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
vii) Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd i ddysgu o arferion da fel manau gweithredu ar alcohol a chanolfannau triniaeth er mwyn helpu i dargedu llecynnau o yfed ac arferion niweidiol [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal, Byrddau Iechyd
viii) Byrddau Cynllunio Ardal a Llywodraeth Cymru i ddysgu a rhannu arferion da o ran lleihau sbwriel sy'n ymwneud â chyffuriau a gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y manau gwaethaf yn lleol [Parhaus]		Byrddau Cynllunio Ardal, Llywodraeth Cymru
<p>Canlyniad 12. Mae pobl sy'n siarad Cymraeg a'u teuluoedd yn gallu cael cymorth ar gyfer problemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain.</p> <p><i>Yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 1: Gwella iechyd a lles y boblogaeth drwy ganolbwyntio ar atal</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwertha gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau, a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, galluogrwydd ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 4: Gwella profiadau ac ansawdd y gofal ar gyfer unigolion a'u teuluoedd</i> 		
i) Codi ymwybyddiaeth staff ynghylch yr angen i wneud y 'Cynnig Rhagweithiol' (darparu gwasanaeth Cymraeg		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 4: Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>heb fod defnyddwyr gwasanaethau yn gorfod gofyn amdano) ac annog darparwyr i fynd ati'n rhagweithiol i annog eu gweithlu i ddatblygu'r gallu i ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle. Bydd hyn yn cynnwys annog staff i gofrestru a chwblhau'r cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith ar-lein ar gyfer y sector iechyd a gofal a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol [Parhaus]</p>	<p>Nifer sy'n cofrestru ac yn cwblhau cyrsiau dysgu Cymraeg Gwaith FFYNHONNELL: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</p>	
<p>ii) Llywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ychwanegu adrannau at Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) er mwyn cofnodi'r gofynion o ran y Gymraeg [Mawrth 2022]</p>		<p>Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru</p>

Nod Allweddol 5: Partneriaethau, y gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Canlyniad 13. Mae Byrddau Cynllunio Ardal yn barod at y dyfodol.</p> <p><i>Mae hwn yn cyfrannu at:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> 		
i) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i adolygu strwythurau a chydberthynas y partneriaethau, gan sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd yn dda â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a strwythurau diogelwch cymunedol [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
ii) Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod cytundebau rhannu data wedi'u sefydlu i gefnogi cydweithio effeithiol, yn enwedig o ran ymyrryd yn gynnar a lleihau niwed drwy rannu gwybodaeth am achosion o wenwyno gan gyffuriau a fu'n angheuol ac fel arall [Rhagfyr 2020]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 5: Partneriaethau, y gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
iii) Pob Bwrdd Cynllunio Ardal i adolygu trefniadau llywodraethu clinigol i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau effeithiol [Mawrth 2021]		Byrddau Cynllunio Ardal
iv) Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau llywodraethu a monitro cryf o ran diogelu mewn gwasanaethau a ffurfioli perthnasau gyda byrddau diogelu [Mawrth 2020]		Byrddau Cynllunio Ardal
v) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu fframwaith canlyniadau camddefnyddio sylweddau [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
vi) Llywodraeth Cymru i adolygu statws y Safonau Craidd Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yng ngoleuni deddfwriaeth a safonau iechyd a gofal cymdeithasol eraill [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru
vii) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwaith i weithredu System Wybodaeth		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal

Nod Allweddol 5: Partneriaethau, y gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn mynd rhagddo ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn genedlaethol [Mawrth 2022]		
viii) Llywodraeth Cymru i ystyried opsiynau i gefnogi statws Byrddau Cynllunio Ardal o fewn y dirwedd bartneriaeth leol a rhanbarthol [Rhagfyr 2020]		Llywodraeth Cymru
ix) Pob Bwrdd Cynllunio Ardal i sicrhau bod ganddo gynrychiolaeth gref gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar ei fwrdd [Rhagfyr 2020]		Byrddau Cynllunio Ardal
x) Ystyried sut y gellir cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i oresgyn rhwystrau i ymgysylltu o ganlyniad i gael eu hallgáu'n ddigidol [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
<p>Canlyniad 14. Mae'r gweithlu camddefnyddio sylweddau yn fedrus ac yn wybodus.</p> <p>Mae hwn yn cyfrannu at:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> 		

Nod Allweddol 5: Partneriaethau, y gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
i) Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal i adolygu anghenion datblygu'r gweithlu camddefnyddio sylweddau [Gorffennaf 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
ii) Paratoi cynllun datblygu gweithlu, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol [Mawrth 2021]		Llywodraeth Cymru
iii) Mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal yn cefnogi gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i ymdopi â heriau emosiynol a chlinigol gofal diwedd oes, colled a phrofedigaeth [Gorffennaf 2021]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
<p>Canlyniad 15. Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ymwreiddio yn y gwaith o gyflenwi a chynllunio gwasanaethau.</p> <p>Mae hwn yn cyfrannu at:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 2: Cynyddu'r gwerth a gyflawnir drwy ariannu iechyd a gofal drwy wella, arloesedd, defnyddio arfer gorau a chael gwared ar wastraff</i> ➤ <i>Nod Pedwarplyg 3: Cyfoethogi llesiant, gallu ac ymgysylltiad y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</i> 		

Nod Allweddol 5: Partneriaethau, y gweithlu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau		
Camau gweithredu	Sut y byddwn yn gwybod – mesurau poblogaeth a pherfformiad	Pwy sy'n gyfrifol?
i) Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau eu bod yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
ii) Byddwn yn cefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu cynrychiolaeth defnyddwyr gwasanaeth ar lefel genedlaethol gan ddysgu o'r datblygiadau cadarnhaol yn ystod y 6 mis diwethaf a defnyddio llwyfannau digidol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynrychioli'n briodol ar lefel genedlaethol [Parhaus]		Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal
iii) Sicrhau bod adborth defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ystyried drwy gynnal ymchwil mewn perthynas â thriniaeth a chymorth yn ystod COVID-19, a fydd yn ei dro yn dylanwadu ar arfer yn y dyfodol o ran diwallu eu hanghenion [Parhaus]		Llywodraeth Cymru

Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 a COVID-19